

# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN



Dydd Mercher, 18 Medi, 2024

2.00-4.30

Busnes@LlandrilloMenai; Ffordd Penlan; Parc Menai; Bangor; LL57 4HJ

<b>Aelodau presennol:</b>	
<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd	Grŵp Llandrillo Menai
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) - Dirprwy Gadeirydd	Cyngor Gwynedd
Dylan Williams (DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Robin Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Geraint Owen (GO)	Cyngor Gwynedd
Charlotte Makanga (CM)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dafydd Gwynne (DG)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bethan Millington	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Euros Jones (EJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lyndsey Campbell-Williams (LC-W)	Medrwn Môn
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru

<b>Yn mynychu:</b>	
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Nia Williams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Caryl Lewis (CL)	Rhwydwaith Cyd-Gynhyrchu Cymru
Lowri Hughes (LH)	Prifysgol Bangor

<b>Ymddiheuriadau:</b>	
Tracey Williams (TW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Catrin Thomas (CT)	Gwasanaeth Prawf
Llinos Davies (LID)	Heddlu Gogledd Cymru
Iwan Jones (IJ)	Parc Cenedlaethol Eryri
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Gillian Jones (GJ)	Gwasanaeth Prawf

### Pwyntiau Gweithredu

1. **Grant Rhanbarthol** - Y Tîm Cefnogi i baratoi eitem drafod ar y Grant Rhanbarthol er mwyn cynllunio ymlaen i 25/26 a sicrhau buddion i'r gogledd orllewin.
2. **Sefydliad Bevan** - Y Tîm Cefnogi i rannu briff cyfredol gweithdy Sefydliad Bevan i aelodau ei wirio.
3. **Adroddiad Blynyddol** – Tîm Cefnogi i'w gyflwyno i Llywodraeth Cymru.
4. **Cynllun Cyflawni / Gweithredu** – Tîm Cefnogi i ddiweddarau'r ddogfen ar ffurf "RAG" bob chwarter.
5. **Siarter Teithio Llesol:**
  - a. Tîm Cefnogi i wahodd holl aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod arbennig gyda Ken Skates (13/03/25).
  - b. Tîm Cefnogi i barhau i ymchwilio i drefniant desg boeth rhwng y sefydliadau.
  - c. Yr Is-grŵp i ymchwilio i a rhannu polisiâu cyfredol gweithio o adref gyda phawb.
6. **Pwysa Iach / Byw yn Iach:**
  - a. DW yn awyddus i gynnwys sefydliadau eraill sydd gyda safleoedd yn Llangefni yn y cynllun teithio llesol. Tîm Cefnogi a DW i gael sgwrs bellach er mwyn cyflawni hyn. - **Tîm Cefnogi /DW**
  - b. Gofynnwyd am gael derbyn data lefel sirol ar Pwysau Iach – **Dafydd Gwynne** i drefnu.
  - c. Yr Is-grŵp i baratoi blaen raglen waith a rhestr wirio i'r Bwrdd
7. **Aelodaeth y Bwrdd:**
  - a. Andrew Edwards wedi ei enwebu fel Cadeirydd – cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.
  - b. Tîm Cefnogi i geisio enwebiad o'r Bartneriaeth Dai
8. **Iaith Gymraeg:**
  - a. **Prosiect Gweithlu Dwyieithog** - Sefydliadau y Byrddau ar draws y Gogledd i fod yn ymrwymo i ddefnyddio'r canllaw, a gosod datganiad ar eu safleoedd swyddi yn datgan eu ymrwymiad i'r iaith Gymraeg. **Tîm Cefnogi** i gydlynu.
  - b. **Prosiect nesa** – Is-grŵp iaith i ddrafftio briff.

### Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1.	Cafwyd cyfle i rwydweithio cyn y cyfarfod.		
2.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b> Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.		
3.	<b>Cofnodion (i'w cymeradwyo)</b> Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion ar gyfer cyfarfod 12/06/24 a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau. <b>Grant rhanbarthol:</b> Cytunwyd i'w roi ar yr agenda ar gyfer 25/26 a bod angen parhau i sicrhau arian i'r Gogledd Orllewin. Eitem drafod yn fuan gyda'r Tîm Cefnogi i gyflwyno opsiynau.	Tîm Cefnogi	

	<p><b>Sefydliad Bevan:</b> Cyn parhau gyda'r gweithdy gan Sefydliad Bevan mae angen ystyried y briff ymhellach er mwyn sicrhau a) y sgôp i ychwanegu gwerth, a b) sicrhau bod y data yn cyferbynnu gyda'r wybodaeth sydd gan Aelodau.</p>	Tîm Cefnogi	
4.	<p><b>Cynllun Llesiant 2023-2028:</b></p> <p><b>a) Adroddiad Blynyddol 2023-24:</b> Cytunwyd bod yr addasiadau a argymhellwyd gan Aelodau wedi eu cwblhau a chaiff ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru.</p> <p><b>b) Drafft o'r Cynllun Cyflawni / Gweithredu:</b> Cafwyd trafodaeth am y drafft o'r cynllun cyflawni/ gweithredu. Nodwyd ei fod yn agos iawn i fod yn fersiwn terfynol. Nodwyd pwysigrwydd i ddiweddarau'r ddogfen ar ffurf "RAG" bob chwarter.</p> <p><b>c) Diweddariadau is-grwpiau / grwpiau Tasg a Gorffen:</b></p> <p><b><u>Siarter Teithio Llesol ac Ymweliad Ken Skates:</u></b> Cafwyd diweddariad ar waith yr is-grŵp gan DG. Mae'r sefydliadau sydd ar yr is-grŵp yn gefnogol i gydweithio ac i symud gyda'i gilydd i arwyddo'r Siarter. Bydd hyn yn digwydd gyda Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth mewn cyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar 13/03/25 yn Llangefni. Bydd cyfle hefyd i Aelodau'r Bwrdd drafod materion gyda'r Gweinidog fel y trydydd bont, heriau trafndiaeth gwledig a phryder bod cyllidebau tymor byr yn golygu nad oes modd ymateb yn hirdymor i sialensau lleol.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i ymchwilio os oes modd dod i drefniant desg boeth rhwng sefydliadau sy'n Aelodau o'r Bwrdd. Hynny yw os oes gan swyddog sy'n aelod o'r Bwrdd gyfarfod yn lleol i leoliad swyddfeydd un o'r sefydliadau a fyddai modd dod i drefniant 'desg boeth'. <b>Tîm Cefnogi</b> i ymchwilio.</p> <p>Cafwyd drafodaeth ar bolisiau y gwahanol sefydliadau ar weithio o adref – cytunwyd i rannu'r wybodaeth yma gyda phawb.</p> <p><b><u>Pwysau Iach / Byw yn Iach:</u></b> Sleidiau wedi eu rhannu gan DG. Cytuno i gydweithio ar set craidd o fesurau ar ffurf dashfwrdd ac eu cyhoeddi yn flynyddol neu'n achlysurol. Cytuno i gydweithio ar yr agenda bwyd yn y tymor byr, hynny yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hybu mynediad i fwyd iach a fforddiadwy</li> <li>• Lleihau neu atal mynediad i fwyd sydd ddim yn iach</li> </ul> <p>Pawb yn awyddus i ganolbwyntio ar lle y medrwn wneud gwahaniaeth a gofynnwyd am gael derbyn data lefel sirol ar Bwysau Iach – <b>Dafydd Gwynne</b> i drefnu.</p> <p>Yr Is-grŵp Pwysau Iach wedi cyfarfod mis Awst ac wedi cadarnhau:</p>	<p>Tîm Cefnogi</p> <p>Tîm Cefnogi</p> <p>Tîm Cefnogi</p> <p>Tîm Cefnogi</p> <p>Tîm Cefnogi</p>	<p>Cgbm</p> <p>Cgbm</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae'r Dull System Gyfan o Bwysau Iach yn gweithio, ar lefelau rhanbarthol a BGC Gwynedd ac Ynys Môn, yn ategu ei gilydd, ac yn osgoi dyblygu.</li> <li>• Y byddent yn darparu opsiynau arfaethedig Pwysau Iach i gyfarfod nesaf y BGC i ystyried canolbwyntio arnynt dros y tymor byr, canolig a hirdymor, er mwyn llywio blaen raglen gwaith.</li> <li>• Posibl ystyried gosod uchelgais lleol unwaith mae'r data lefel sirol ar gael</li> </ul> <p>Aelodau'r Bwrdd am i'r Is-grŵp lunio rhestr wirio o weithrediadau tymor byr, tymor canolig, i gynnwys, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pob aelod i wirio amserlenni cytundebau bwyd eu sefydliadau</li> <li>• Yr Is-grŵp i weithio ar y posibilrwydd o osod cymal yn y prosesau caffael sydd yn ystyried pwysau iach, fel sy'n digwydd ar Werth Cymdeithasol, Sero Net a'r Iaith Gymraeg.</li> </ul> <p><b><u>Newid Hinsawdd</u></b> Cafwyd diweddariad gan EJ ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd Rhanbarthol. Aelodau yn pwysleisio bod angen sicrhau bod y data ac unrhyw adroddiad ar gael ar lefel sirol. Adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf</p> <p><b><u>Prosiect Niwbwrch</u></b> Y gwaith yn parhau gyda chydweithio ar ddatrysiadau. Mae Dogfen Strategol mewn lle ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyfoeth Naturiol Cymru. Eglurwyd bod grŵp tasg yn edrych ar weithredu'r posibiladau tymor byr ac yn parhau i fonitro cynnydd ac ymgysylltu gyda'r gymuned. Bydd adolygiad o'r drefn beilot yma yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd gyda chynnig i gymunedau eraill ymgymryd â threfn tebyg, gyda arian rhanbarthol wedi ei neilltuo i'w cefnogi.</p>		
5.	<p><b>Aelodaeth y Bwrdd:</b> Diolchiadau i Aled Jones-Griffith, Grŵp Llandrillo Menai am ei gyfnod fel Cadeirydd a llongyfarchiadau ar ei rôl newydd. Yr Athro Andrew Edwards, Prifysgol Bangor, wedi ei enwebu fel Cadeirydd newydd y Bwrdd – Aelodau i'w gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Tîm Cefnogi i gysylltu gyda'r Bartneriaeth Dai am enwebiad</p>		
6.	<p><b><u>Iaith Gymraeg – Prosiect Gweithlu Dwyieithog</u></b></p> <p>Ymunodd Dr Lowri Hughes, Cadeirydd yr Is-grŵp Iaith gyda'r cyfarfod. Nodwyd bod yr Is-grŵp wedi cwblhau'r prosiect Gweithlu Dwyieithog. Roedd y prosiect yn ymchwilio i pam mae sefydliadau cyhoeddus ar draws gogledd Cymru yn cael anhawster recriwtio i rolau Cymraeg eu hiaith, ac a yw'r ateb yn gorwedd o fewn y prosesau recriwtio eu hunain. Rhannwyd yr adroddiad gorffenedig a 'Chanllaw Camau Recriwtio' fel atodiad. Bydd yr adroddiad, canllaw a chrynodeb gweithredol yn cael ei osod ar wefan y</p>		

	<p>Bwrdd. Bwriad y Camau Recriwtio yw bod yn declyn ymarferol i unrhyw un sydd yn paratoi i hysbysebu swyddi o fewn sefydliad.</p> <p>Gofynnwyd i holl sefydliadau y Bwrdd ymrwymo i ddefnyddio'r canllaw, a gosod datganiad ar eu safleoedd swyddi yn datgan eu hymrwymiad i'r iaith Gymraeg. <b>Tîm Cefnogi</b> i drefnu cydlynu hyn.</p> <p>Atgoffodd LH yr aelodau bod yr is-grŵp iaith yn cael ei arwain o ran tasgau gan y Bwrdd, a chyflwynwyd rhestr o brosiectau posibl wedi ei ddarparu gan yr Is-grŵp i'r Bwrdd ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Ymchwil i dlodi a'r iaith – adeiladu ar waith Hannah Hughes</li> <li>ii. <b>Ymchwil i'r linc rhwng llesiant staff a gallu siarad Cymraeg yn y gwaith</b></li> <li>iii. <b>Ymchwilio sut mae bodloni pobl bod eu Cymraeg nhw ddigon da i weithio i sefydliadau cyhoeddus – “chwalu mythau”</b></li> </ul> <p>Cytunwyd i brosiect sydd yn cyfuno elfennau opsiwn ii a iii ac i ychwanegu pwyslais ar ddysgwyr Cymraeg hefyd. Bydd yr Is-grŵp iaith yn gweithio ar manylion y briff i'r cyfarfod nesaf.</p>	<p><b>Tîm Cefnogi</b></p> <p><b>Is-grŵp iaith</b></p>	
7.	<p><b>Mapio bygythiadau a heriau i wasanaethau cyhoeddus a llesiant ein cymunedau yn sgil y toriadau ariannol parhaus</b></p> <p>Pob sefydliad wedi cael cyfle i amlinellu'r sefyllfa ac effeithiau lefel uchel a thrafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal. Dim wedi cael sgwrs ar y cyfle i gydweithio. Cyfleon i gydweithio yn dyfodol i ddod yn ôl i'r cyfarfodydd - hyn yn rywbeth i ailymweld ag o yn y cyfarfodydd i'r dyfodol.</p>		
8.	<p>Dyddiadau cyfarfodydd nesaf:</p> <p>20 Ionawr 2025 – Cyfarfod llawn, Llwyn Brain, Parc Menai</p> <p>13 Mawrth 2025 – Cyfarfod arbennig gyda'r Gweinidog Ken Skates – 10yb Bryn Cefni, Llangefni</p>		